# PRIFYSGOL GOMIWNYDDOL CYMRU
# *COMMUNIST UNIVERSITY OF WALES*

trefnwyd gan y
Blaid Gomiwnyddol

28 & 29 Tachwedd 2025
YMa, 28 Stryd y Taff, Pontypridd CF37 4TS

# BETH YW DYFODOL CYMRU?

## Gwener 28 Tachwedd

Drysu'n agor i gofrestru. — 6.30yh – 7.00yh

**Darlith Goffa Gwyn Alf Williams** — 7.00yh – 9.00yh
*Mudiad Gweriniaethol Sosialaidd Cymreig – ei hanes a'r gwersi ar gyfer heddiw*
Gyda Guto Davies – cyn aelod o'r MGSC ac ysgrifennydd presenol Plaid Gomiwnyddol Pontypridd.

## Sadwrn 29 Tachwedd

Drysu'n agor i gofrestru. — 9.30yb – 10.15yb

**Sesiwn 1** — 10.15yb – 11.30yb
*Fyddai Gweriniaeth Iwerddon yn fodel ar gyfer Cymru annibynnol?*
Gyda Fionn Wallace.

**Sesiwn 2** — 11.30yb – 1.00yp
*Ffederaliaeth Flaengar ynteu Annibyniaeth?*
Gyda Luke Fletcher AS; Mabli Siriol Jones; Rick Newnham a Sian Cartwright yn cadeirio.

**Cinio** — 1.00yp – 2.00yp

**Sesiwn 3** — 2.00yp – 3.30yp
*Gwlatgarwch, Cenedlaetholdeb a gwrthsefyll cyfodiad y dde eithafol.*
Gyda Roger McKenzie ac Alex Gordon a Laura Picand yn cadeirio.

**Guto Davies**
Mae Guto Davies yn gyn-weithiwr rheilffordd, swyddog cangen a chynrychiolydd rhanbarthol gydag Undeb yr RMT. Mae'n gyn aelod gwreiddiol o'r Mudiad Gweriniaethol Sosialaidd Cymreig, yn awr yn aelod o'r Blaid Gomiwnyddol Gymreig ac yn ysgrifennydd cangen Pontypridd.

**Fionn Wallace**
Mae Fionn Wallace yn aelod o Blaid Gomiwnyddol Iwerddon, yn ddadansoddwr gwleidyddol ac yn ymgyrchydd gyda dros ddegawd o brofiad fel ymchwilydd gwleidyddol ac awdur areithiau yn y Dáil Éireann ac yn y Senedd Ewropeaidd. Mae Fionn wedi graddio mewn hanes ac athroniaeth ac yn ddoethur mewn athroniaeth o Brifysgol Dulyn.

**Luke Fletcher**
Mae Luke Fletcher wedi bod yn Aelod o'r Senedd ers 2021 gan gynrychioli rhanbarth De-Orllewin Cymru, yn llefarydd Plaid Cymru ar yr economi ac ynni. Graddiodd Luke o Brifysgol Caerdydd gyda doethuriaeth cyn dod yn ymchwilydd economi a chyllid ar ran grwp seneddol Plaid Cymru. Cyn hynny bu Luke yn gweithio am yn agos i bum mlynedd yn y sector lletygarwch. Mae Luke yn aelod o Bwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd ac yn Gadeirydd nifer o grwpiau traws-bleidiol, gan gynnwys y rhai ar Brentisiaethau, Dementia, Cymunedau Diwydiannol a Mentrau Cydweithredol a Chydfuddiannol.

**Mabli Siriol Jones**
Yn wreiddiol o Gaerdydd mae Mabli Siriol Jones wedi gweithio yn y Senedd ac wedi ymgyrchu dros gydraddoldeb LHDT a diwygio'r gyfundrefn loches. Roedd yn Gadeirydd Cymdeithas yr Iaith rhwng 2020 a 2022. Mae Mabli wedi cyfrannu penodau mewn llyfrau yn ymdrin a gwleidyddiaeth a chymunedau Cymru gan gynnwys 'The Welsh Way: Essays on Neoliberalism and Devolution', Hi/Hon a Rhaid i Bopeth Newid.

**Rick Newnham**
Mae Rick Newnham yn gyn Gadeirydd y Blaid Gomiwnyddol Gymreig ac yn byw ar hyn o bryd yng nghanolbarth Cymru. Roedd Rick yn weithiwr ieuenctid a chymunedol ac yn fwy diweddar yn uwch-ddarlithydd yng Nghaerdydd. Roedd yn gynrychiolydd undeb am ran helaeth o'i yrfa ac yn ymgyrchydd yn erbyn rhyfel ac yn erbyn ffasgaeth gydol ei oes. Mae Rick nifer o weithiau wedi bod yn ymgeisydd etholiadol ar ran y Blaid Gomiwnyddol.

**Sian Cartwright**
Mae Sian wedi gweithio i'r mudiad undebau llafur am y rhan fwyaf o'i bywyd fel oedolyn, yn flaenorol fel swyddog addysg gydag ASLEF ac yn fwy diweddar an ddeunaw mlynedd yn gweithio ar ran TUC Cymru fel swyddog cenedlaethol gyda chyfrifoldeb am addysg a sgiliau undebau llafur. Yn hannu o Gaerdydd mae Sian wedi bod yn aelod o'r Blaid Gomiwnyddol ers 1991 gan ymgymeryd a nifer o swyddi ar lefel Gymreig a Phrydeinig. Mae ar hyn o bryd yn gadeirydd cangen Caerdydd.

**Roger McKenzie**
Roger McKenzie yw golygydd rhyngwladol Seren y Bore, yn aelod o Bwyllgor Gweithredol Cenedlaethol yr NUJ ac yn ymgyrchydd gwrth-hiliaeth hir dymor.

**Alex Gordon**
Mae Alex Gordon yn aelod o Bwyllgorau Gweithredol a Gwleidyddol Plaid Gomiwnyddol Prydain. Mae'n gweithio fel gyrrwr trên a chafodd ei ethol fel Llywydd Cenedlaethol yr RMT rhwng 2010-2012 a 2022-2024. Mae Alex yn Gadeirydd Llyfrgell Goffa Marx ac Ysgol y Gweithwyr ac yn gyfrannwr i'w gyfnodolyn 'Theory & Struggle' yn ogystal ac i bapur newydd Seren y Bore ac i'r 'Communist Review'. Mae Alex yn swyddog gyda Cynghrair Atal Y Rhyfel ac yn Is-Gadeirydd CND.

**Laura Picand**
Laura yw Cadeirydd y Blaid Gomiwnyddol Gymreig, yn gynrychiolydd ar Gomisiwn Menywod Plaid Gomiwnyddol Prydain ac yn ysgrifennydd cangen Abertawe a De-Orllewin Cymru. Mae Laura hefyd yn gynrychiolydd 'Unite Community' ar Gyngor Undebau Llafur Abertawe ac yn drysorydd CND Abertawe.